**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Y Senedd,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

1 Awst 2023

Annwyl Peredur

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 11 Gorffennaf ynglŷn â'r taliad untro o £1500 i staff Llywodraeth Cymru.

Er ein bod yn dal i weithio ar gyfanswm y gost ar gyfer gwneud y taliadau hyn i staff Llywodraeth Cymru, mae'r datganiadau gan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd yn nodi'n glir bod rhaid rheoli dyfarniadau cyflog o'r fath o fewn y setliadau presennol ar gyfer Adrannau Whitehall, ac nad oes unrhyw gyllid canlyniadol ar gael i Gymru.

Gallaf gadarnhau nad yw ein sefyllfa ariannu wedi newid ers y Gyllideb Atodol Gyntaf. O ystyried y canllawiau clir gan Lywodraeth y DU, ein rhagdybiaeth o hyd wrth gynllunio yw na fydd unrhyw gyllid ychwanegol ar gael. Felly, rhaid i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau anodd iawn ynghylch gostyngiadau yn y gwariant a gynlluniwyd er mwyn i'r taliad hwn o £1500 i staff gael ei gynnwys o fewn y cyllidebau presennol.

Mae heriau economaidd a chyllidol sylweddol wedi'i nodi eisoes yn y flwyddyn ariannol bresennol ac mae setliad ariannol presennol Cymru yn llawer llai na'r hyn sydd ei angen i allu wynebu hyn gan ddefnyddio'r cyllidebau presennol, sydd wedi'u herydu gan bwysau chwyddiant o sawl math.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gwaith ar y gweill ar draws Llywodraeth Cymru i greu darlun eglur o’r holl bwysau ar y gyllideb, gan gynnwys y taliad hwn i staff, ac i nodi opsiynau arbed er mwyn rheoli'r sefyllfa gyffredinol. Ar hyn o bryd ni allaf gadarnhau a fydd hyn yn golygu unrhyw drosglwyddiadau rhwng Prif Grwpiau Gwariant. Bydd yr holl newidiadau yn cael eu hadlewyrchu yn yr Ail Gyllideb Atodol yr wyf yn bwriadu ei chyhoeddi ym mis Chwefror 2024, yn unol â’r amserlen arferol.

Mae’n iawn i holl weithwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru gael eu gwobrwyo'n deg am y gwaith pwysig y maen nhw’n ei wneud. Yn anffodus, gan nad yw hi’n debygol y daw cyllid canlyniadol digonol gan Lywodraeth y DU ar gyfer setliadau cyflog, bydd angen i’r cyllid ar gyfer unrhyw ddyfarniadau cyflog gael ei reoli o fewn y setliadau presennol. Mae Llywodraeth Cymru yn gorfod gwneud gostyngiadau mewn gwariant a gynlluniwyd, fel bod modd i’r taliad hwn o £1500 gael ei gynnwys o fewn ei chyllideb bresennol, Fel yr esboniodd y Prif Weinidog yn glir yn ei lythyr at y Llywydd yn ddiweddar, mewn perthynas â Chomisiwn y Senedd, byddem yn disgwyl i'n Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ddefnyddio dull tebyg a cheisio cynnwys y costau o fewn y setliadau cyllidebol presennol. Mae'n anochel y bydd unrhyw geisiadau pellach am gyllid ychwanegol yn arwain at doriadau pellach mewn mannau eraill.

Wrth gwrs, bydd fy swyddogion yn hapus i roi unrhyw gyngor penodol i swyddogion yn ein Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn ôl yr angen, i'w helpu i ystyried sefyllfa gyllidebol eu sefydliadau neu i fanylu ar y rhagdybiaethau ariannu o ran dyfarniadau cyflog Llywodraeth Cymru.

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government